**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6364
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6364

Dr Caoimhe Archibald MLA
Y Gweinidog Cyllid
Cynulliad Gogledd Iwerddon

8 Mai 2024

Annwyl Dr Archibald

Ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd yn cynnal ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol. Mae hwn yn ymchwiliad pwysig i ni ystyried effeithiolrwydd y strwythurau rhynglywodraethol sydd ar waith ledled y DU ar gyfer cefnogi cydweithio ar faterion cyllidol.

Fel rhan o'n cylch gorchwyl rydym yn ystyried y mecanweithiau datrys anghydfodau ac a ydynt yn addas at y diben, yn benodol, y broses datrys anghydfodau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith cyllidol a gweithredu trethi datganoledig newydd.

Yn ystod sesiynau tystiolaeth ar 1 Mai 2024, tynnwyd ein sylw at y ffaith bod Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi codi anghydfod â Thrysorlys EM yn 2022, ond fod y canlyniad yn parhau'n aneglur gan i'r anghydfod gael ei ohirio oherwydd bod Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi'i hatal.

Rwy'n gwerthfawrogi nad oeddech chi yn eich swydd pan godwyd yr anghydfod, ond byddwn yn hynod ddiolchgar pe gallech roi unrhyw wybodaeth sydd gennych i ni am natur yr anghydfod a'i statws ar hyn o bryd.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael eich ymateb erbyn 21 Mehefin 2024, fel y gallwn ystyried yr wybodaeth fel rhan o'n hymchwiliad.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd

Cc Matthew O'Toole MLA, Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid, Cynulliad Gogledd Iwerddon

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.